



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



1.9.20

Annwyl Rieni,

Gobeithio fod pawb wedi mwynhau gwyliau'r haf! Edrychwn ymlaen at ddechrau croesawu'r plant yn ôl o ddydd lau 3/9 ymlaen yn unol â'r amserlen isod a gafodd ei rannu efo chi drwy ebost cyn i ni gau am yr haf. Fel y gwyddoch yn barod, mae'n rhaid cael cynllun ar gyfer ail agor a dychwelyd yn raddol ddechrau y tymor yma yn unol â chyfarwyddyd yr Awdurdod Addysg. Dyma'r amserlen eto i'ch atgoffa.

Dyddiad	Pwy?
Dydd Mawrth 1/9	Staff yn unig
Dydd Mercher 2/9	Staff yn unig
Dydd Iau 3/9	Meithrin, Bl.1, Bl.3, Bl.5
Dydd Gwener 4/9	Derbyn, Bl.2, Bl.4, Bl.6
Dydd Llun 7/9	Meithrin, Bl.3, Bl.4, Bl.5, Bl.6
Dydd Mawrth 8/9	Meithrin, Derbyn, Bl.1, Bl.2
Dydd Mercher 9/9	Bl.3, Bl.4, Bl.5, Bl.6
Dydd Iau 10/9	Meithrin, Derbyn, Bl.1, Bl.2
Dydd Gwener 11/9	Derbyn, Bl.1, Bl.2, Bl.3, Bl.4, Bl.5, Bl.6
Dydd Llun 14/9 ymlaen	Pob disgybl

Rydym yn dychwelyd i'n horiau ysgol arferol: 8.50am – 3.00pm (Cyfnod Sylfaen); 8.50am – 3.15pm (CA2); 8.50am – 12.00pm (Meithrin). Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 8.50am ac fe ofynnaf yn garedig i chwi ofalu fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae staff yn cyfarch plant a rhieni/gwarchodwyr wrth giatau'r iard. Cofiwch mai rhieni/gwarchodwyr y plant dosbarth Meithrin yn unig sy'n hebrwng eu plant at ddrws y dosbarth. Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol gofynnwn yn garedig i chi ffonio'r ysgol cyn 9.00am – rhwng 8.30am a 9am os yn bosibl. Yn unol â'r arfer ar ddiwedd y diwrnod ysgol, mae plant y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gollwng allan i'w rhieni / gwarchodwyr drwy ddrysau'r dosbarthiadau am 3yp – disgwylir i rhieni/gwarchodwyr fod ar yr iard yn disgwyl am eu plentyn / plant. Mae'r Dosbarth Meithrin yn cael eu gollwng drwy'r drws ffrynt am 12pm. Am 3.15yp hebryngir disgyblion yr Adran Iau (CA2) o'u dosbarthiadau at eu rhieni ar yr iard / at y 'lôn gollwng a mynd'.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl fod nifer o fesurau diogelwch wedi eu gweithredu er mwyn sicrhau bod disgyblion a staff mor ddiogel â phosibl.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau isod.

## **Cinio Ysgol a Chlwb Brecwast**

Dyma'r wybodaeth a ddaeth i law y prynhawn yma:

- **Bydd pob disgybl** (gan gynnwys disgyblion sydd yn deilwng i brydau ysgol am ddim) **yn gorfod dod â phegyn bwyd i ginio am bythefnos cyntaf y tymor.**



- Bydd rhieni disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn dal i dderbyn taliadau uniongyrchol tan y 14eg o Fedi sy'n golygu y bydd gofyn iddyn nhw ddarparu pecynnau bwyd i'w plant.
- O'r 14eg o Fedi, bydd Caterlink yn gweithredu'n arferol yn yr holl ysgolion cynradd ac yn paratoi prydau poeth i'r disgyblion.
- Ni fydd clwb brecwast yn cael ei gynnal mewn unrhyw ysgol gynradd tan y 14eg o Fedi.

### **Clwb Gofal Bore**

Bydd y Clwb Gofal Bore yn ail agor Medi 14eg.

### **Clwb Hwyl (Ar Ôl Ysgol)**

Bydd y Clwb Hwyl yn ail-agor ddydd Iau yma Medi 3ydd, 3.15pm-5.15pm. Bydd angen archebu lle ar-lein ar School Gateway fel arfer.

### **Byrbryd bore**

Mae'r Siop Ffrwythau wedi cau, fodd bynnag bydd dosbarth **Meithrin/Derbyn** a **dosbarth BI.1&2** yn agor 'Caffi'. Bwriad y Caffi yw i ddatblygu sgiliau cymdeithasu ac annibyniaeth y plant, gan hefyd sicrhau bod pob plentyn yn cael byrbryd iachus bob bore.

Mi fydd y plant yn 'gweithio' yn y caffi yn eu tro gan baratoi'r bwyd, ei weini a golchi'r llestri. Mi fydd bwydlen amrywiol i'w gael a mi fydd byrbryd gwahanol bob dydd. Enghreifftiau o'r bwydydd fydd ar y fwydlen hanner tymor yma yw: amryw o ffrwythau, ciwcymbr, iogwrt, rhesins, craceri, *crumpet*, tôst (gyda dewis o jam neu mêl ayb).

Gofynnwn yn garedig i bawb gefnogi'r Caffi drwy dalu £1 yr wythnos drwy School Gateway o 7/9/20 ymlaen (bydd y Caffi am ddim wythnos yma). Mi fydd unrhyw elw yn cael ei ddefnyddio i brynu teganau ac offer newydd i'r Cyfnod Sylfaen. Os oes gan eich plentyn unrhyw alergedd/anoddefiad bwyd yna trafodwch hyn gyda'r athrawes ddosbarth.

### **Poteli Dŵr**

Gan nad yw'r ffynhonnau dŵr yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn dod â photel ddŵr wedi'i llenwi i'r ysgol.

### **School Gateway**

Cofiwch nad ydym bellach yn derbyn arian parod ac felly rydym yn gofyn i rieni i wneud pob taliad ar-lein. Os ydych yn riant newydd ac nad oes ganddoch gyfrif talu ar-lein, mae angen i chi gofrestru er mwyn creu cyfrif ar <https://cymru.schoolgateway.com/> drwy glicio fel defnyddiwr newydd. Bydd angen i chi roi eich cyfeiriad e-bost a'r rhif symudol **sydd gennym wedi ei gofnodi ar eich cyfer yn yr ysgol**. Mae'r app 'School Gateway' hefyd yn fodd hwylus o wneud taliadau i'r ysgol o'ch ffôn neu dabled. Cyfeiriwch unrhyw ymholiad ynglyn â phrydau cinio, taliadau ayb i'n Swyddog Cefnogi Ysgol, Mrs Gillian Morris os gwelwch yn dda: 01248 422350 / [swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk](mailto:swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk)

### **Lôn 'gollwng a mynd'**

Ni ddylid rhwystro'r lôn yma, na pharcio arni ar unrhyw gyfrif. Mae'r lôn yma i ollwng/godi eich plentyn /plant a mynd. Ni ddylid dal traffig yn ôl wrth ollwng eich plentyn wrth y drws/giât – rhaid symud i ben draw y lôn i sicrhau lle i geir giwio tu ôl i chi. Dylid ceisio sicrhau llif traffig cyson ar y lôn yma.

### **Gwisg Ysgol**

Gofynnwn i bob plentyn wisgo gwisg ysgol os gwelwch yn dda.



Cofiwch gysylltu os â unrhyw gwestiwn. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rannu efo chi cyn diwedd yr wythnos.

Diolch yn fawr.

Yn gywir,

**Iwan W Taylor**

(Pennaeth)

